Coleg Penybont
Bridgend College

COFNODION CYFARFOD Y CORFF LLYWODRAETHU
AR 14 HYDREF 2021 AM 4.30YP
(Cyfarfod hybrid – Ystafell Gynadledda'r Academi STEAM ac ar Google Meet)

AELODAU A OEDD YN BRESENNOL:
Mr Paul Croke (Cadeirydd)
Mr D John Finch
Ms Emma Adamson
Ms Trish D'Souza
Mrs Judith Evans
Dr John Graystone
Mr Jeff Greenidge
Miss Esmie Guild – Myfyriwr-lywodraethwr
Mr Konrad Halabuda – Staff-lywodraethwr
Mrs Kathy Lewis
Mr Hayden Llewellyn
Ms Alwena Morgan
Mrs Joanne Oak
Mr Joshua O'Sullivan-Woodward – Myfyriwr-lywodraethwr
Mr Simon Pirotte – Pennaeth
Mrs Satwant Pryce
Cllr Dr Charles Smith

ERAILL A OEDD YN BRESENNOL
Mrs Denise Brookes-Cooze – Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith – cyflwyniadau yn unig
Mrs Rachel Edmonds-Naish – Pennaeth Cwricwlwm STEAM (sylwedydd)
Mrs Nicola Eyre (NE) – Clerc
Mr Andrew Gibbs (AG) – Is-bennaeth
Mrs Sam Morgan – Cyfarwyddwr Pobl
Mr Jon Nottingham – Arweinydd Lles Actif
Mr Matt Williams – Cyfarwyddwr Gweithredol Dysgu Seiliedig ar Waith ac Engage

Dechreuodd y cyfarfod am 4.40yp.

Agorodd y Pennaeth y cyfarfod trwy dalu teyrnged arbennig i'r tri aelod sy'n ymddeol, a oedd yn mynychu eu cyfarfod olaf gyda'r Corff Llywodraethu – Mr Paul Croke (Cadeirydd), Mr D John Finch (Is-gadeirydd) a Mrs Kathy Lewis. Diolchodd y Pennaeth i'r aelodau hyn am eu gwaith diflino a dywedodd fod yr Academi STEAM yn dyst o'u hymdrechion a'u cyfraniadau sylweddol. Ychwanegodd y Pennaeth fod y tri aelod yma wedi bod yn rhan hanfodol o yrru'r Coleg ymlaen ac o helpu gosod y gwerthoedd a'r diwylliant pobl-ganolog sy'n tanategu cenhadaeth ac ethos y Coleg.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran ei hun a'r ddau aelod arall, i'r Pennaeth, y staff, y myfyrwyr a'r Uwch Dîm Arwain yn ogystal ag i aelodau'r Corff Llywodraethu a'r Clerc am ychydig o

flynyddoedd go arbennig. Dywedodd y Cadeirydd fod ennill y wobr Beacon ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethu yn brawf o waith caled pawb, ac yn dangos bod y Coleg yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Croesawodd y Cadeirydd y ddau fyfyriwr-lywodraethwr newydd – Miss Esmie Guild (Gwasanaethau Cyhoeddus L3) a Mr Joshua O'Sullivan-Woodward (HND mewn Rheoli Cefn Gwlad) – i'r cyfarfod, a chyflwynwyd pob llywodraethwr ac aelod staff iddynt.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gadarnhau penodiad Ms Emma Adamson i'r Corff Llywodraethu ac i'r Pwyllgorau Archwilio a Chwricwlwm ac Ansawdd, a oedd wedi cael ei gadarnhau'n electronig yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu ar 30 Medi. Cadarnhaodd y Corff Llywodraethu'r penodiad hwn, a chroesawodd y Cadeirydd Ms Adamson i'r cyfarfod. Diolchodd Ms Adamson i'r Corff Llywodraethu a dywedodd mai pleser yw bod yn rhan ohono.

Yn olaf, tynnodd y Cadeirydd sylw at fater swydd wag y Cadeirydd yn dilyn ei ymddeoliad ar 23 Hydref ar ôl i [golygu] dynnu'n ôl o rôl y Darpar Gadeirydd yn ystod yr wythnos flaenorol. Gan fod yr Is-gadeirydd yn ymddeol ar yr un diwrnod â'r Cadeirydd, mae'r rheolau llywodraethu'n datgan bod rhaid i'r Is-gadeirydd newydd ymgymryd â'r rôl Cadeirydd Dros Dro. Felly, bydd Mr Jeff Greenidge yn dechrau fel Cadeirydd Dros Dro ar 24 Hydref. Trafodwyd y broses ar gyfer penodi Cadeirydd newydd yn eitem 6 yr agenda – Materion Llywodraethu.

CYFLWYNIADAU

<u>Cydraddoldeb, Amrywioldeb, Cynhwysiant a Pherthyn – gosod yr olygfa ar gyfer 2021/22</u>
Rhoddodd y Pennaeth gyflwyniad ar gydraddoldeb, amrywioldeb, cynhwysiant a pherthyn, a'r hyn y mae hyn yn ei olygu yng Ngholeg Penybont. Esboniodd ei fod wedi ystyried hyn yn drylwyr ac wedi myfyrio arno yn bersonol a gyda staff a myfyrwyr. Mae croesfan baner balchder y Coleg wrth fynedfa'r Academi STEAM yn ddatganiad o fwriad y Coleg ynghylch cydraddoldeb ac amrywioldeb, a phwysleisiodd y Pennaeth bwysigrwydd byw ac anadlu'r gwerthoedd a'r ymddygiad hyn.

Cyflwynwyd ystadegau am gydbwysedd rhywiau cynghorau/cabinetau yng Nghymru a Chadeiryddion a Phenaethiaid colegau yng Nghymru a oedd yn dangos bod y rhain o hyd yn cael eu dominyddu gan ddynion. Tynnwyd sylw at y ffaith mai dim ond pythefnos ynghynt y dadorchuddiwyd y cerflun cyntaf o fenyw Gymreig enwedig, a gofynnwyd pam gymerodd hi tan 2021 i hyn ddigwydd. Dangoswyd dyfyniadau a darluniadau i arddangos barnau amrywiol ynghylch hyn.

Daeth y Pennaeth â'i gyflwyniad i ben drwy ddweud bod distawrwydd yr un peth â derbyniad, a bod angen i'r Coleg fod yn ddewr. Fodd bynnag, mae posibilrwydd o gael adlach pan gymerir unrhyw gamau yn y maes hwn.

Gwahoddodd y Pennaeth y llywodraethwyr i rannu eu barnau, a chafwyd yr adborth canlynol:

- Dywedodd y staff-lywodraethwr ei fod yn teimlo'n falch iawn o weithio yn y Coleg, a bod y cyflwyniad yn wych.
- Gofynnwyd sut y gallai'r Corff Llywodraethu gefnogi'r Coleg orau, gan fod y maes cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant yn gymhleth, a chytunwyd y byddai'r Corff Llywodraethu'n adolygu sut y gallai gefnogi ymrwymiad y Coleg orau ar ddiwrnod cwrdd i ffwrdd.
- Mae angen i'r sector amlinellu ei ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant.
- Mae newid yn corddi teimladau'n fawr.
- Mae angen ymgorffori cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant mewn systemau er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy.

Daeth y Pennaeth i'r casgliad fod y pandemig wedi rhoi cyfle iddo fe ac i'r Coleg i fyfyrio ar yr hyn sy'n bwysig, ac ar yr hyn y gallai'r Coleg ei wneud i helpu pobl i gysylltu a theimlo eu bod yn perthyn.

Cytunwyd y dylid trafod hyn ymhellach mewn cyfarfod 'cwrdd i ffwrdd' gan fod y Corff Llywodraethu'n gyfrifol am oruchwylio cenhadaeth strategol y Coleg. **GWEITHRED – SP/NE**

<u>Diweddariad Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW)</u>
Rhoddodd Mrs Denise Brookes-Cooze (Pennaeth Dysgu Seiliedig ar Waith) gyflwyniad am waith a llwyddiannau'r tîm DSW. Nodwyd yr uchelbwyntiau canlynol:

- Mae'r contract prentisiaethau wedi tyfu o [golygu] yn 2014/15 i [golygu] yn 2021/22.
- Bu twf o 25% i werth y contract rhwng 2020/21 a 2021/22.
- Mae'r Coleg yn perfformio'n well na'r cymaryddion ansawdd cenedlaethol.
- Coleg Penybont oedd y darparwr lleiaf yn y Consortiwm B-WBL yn 2013/14 yn ôl gwerth y contract, ond bellach y darparwr mwyaf ydyw; mae yna 9 darparwr yn gyfanswm.
- Prentisiaethau sy'n ffurfio 85% o'r ddarpariaeth DSW – mae 1,200 prentis yn gweithio gyda 250 cyflogwr mewn sawl sector gwahanol. Yn wreiddiol, dim ond yn y meysydd peirianneg ac adeiladwaith oedd y ddarpariaeth yn gweithio, ond ehangwyd hyn yn sylweddol. Cyflwynwyd sleid yn dangos y cyflogwyr amrywiol y mae'r Coleg yn gweithio â nhw.
- Mae meysydd eraill y ddarpariaeth yn cynnwys gweithgarwch masnachol, prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac ymgysylltu â chyflogwyr.
- Rhoddwyd y Coleg ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr TES (Times Education Supplement) ar gyfer Rhaglen Brentisiaeth y Flwyddyn yn 2019/20, ac mae prentisiaid wedi cael eu henwebu ac wedi ennill llawer o wobrau sy'n ymwneud â phrentisiaethau.
- Mae heriau'n wynebu'r tîm DSW, a COVID yw'r mwyaf ohonynt. Hefyd, mae'r Coleg wedi cymryd dysgwyr a staff dadleoledig ymlaen o sefydliadau a oedd yn aflwyddiannus gyda'u cynigion tendro yn ddiweddar, ac felly'n ceisio rheoli'r trawsnewidiad yma.
- Cyflwynwyd y strategaeth DSW a'r camau nesaf, ac esboniwyd bod y tîm DSW yn uchelgeisiol o ran parhau i ddatblygu, gwella a thyfu'r ddarpariaeth.

Gofynnodd aelod beth sydd wedi arwain at y llwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf. Esboniodd y Pennaeth DSW fod hi a'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros DSW yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm a bod y ddau ohonynt yn angerddol iawn ac yn benderfynol o gynnig darpariaeth o'r safon uchaf wrth geisio tyfu. Mae cydymddiriedaeth a chydymrwymiad rhwng y Coleg a'r cyflogwyr sy'n golygu bod gweithio ar y cyd a gweithio â phartneriaid yn rhagori. Hefyd, mae'r Consortiwm B-WBL yn gwobrwyo perfformiad da, ac mae hyn wedi cyfrannu at y twf.

Gofynnodd aelod arall am effaith cymryd dysgwyr a staff dadleoledig ymlaen, a pha hwyl a gafwyd â hyn hyd yn hyn. Esboniwyd bod Llywodraeth Cymru yn dosrannu'r dysgwyr dadleoledig i'r darparwr DSW mwyaf addas, a rhwymedigaeth y Coleg nawr yw sicrhau eu bod yn cwblhau eu cymwysterau. O ran symud staff o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981, mae hyn wedi gweithio'n dda ar y cyfan, ond mae rhai problemau wedi codi.

Gofynnwyd a yw'r cynnydd i nifer y prentisiaethau wedi cael effaith ar addysg uwch, a daethpwyd i'r canlyniad bod rhaid bod hyn wedi cael effaith.

Nododd aelod arall fod y ddarpariaeth yn drawiadol iawn, a bod y prentisiaethau cynhwysol yn dangos bod pob maes yn cael ei ystyried o fewn DSW. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'r weledigaeth ar gyfer DSW a bod yn ymatebol i anghenion cyflogwyr drwy ddadansoddi data.

Daeth y cyflwyniad i ben gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn esbonio bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod arloesiad yn y cwricwlwm er mwyn ceisio adnabod ym mha feysydd y mae angen gweithwyr ar gyflogwyr. Nodwyd bod hyn yn anodd oherwydd y sefyllfa ynghylch prinder y farchnad lafur, a thynnwyd sylw at rôl y tîm Cyfleoedd (gwasanaeth gyrfaoedd y Coleg) sy'n rhoi cefnogaeth i ddysgwyr ynghylch gyrfaoedd ac sydd â chysylltiadau â'r diwydiant.

5.50yp – Gadawodd Mrs Denise Brookes-Cooze y cyfarfod

1. CROESO'R CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol – Mrs Sara Davies (Staff-lywodraethwr), Mrs Dawn Lewis-Whelan, a Mrs Julia Longville.

Gwahoddwyd Ms Viv Buckley (Dirprwy Bennaeth), Mr Joe Baldwin (Pennaeth Cynorthwyol – Taith y Dysgwr) a Mrs Liz Evans (Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd) i'r cyfarfod, ond nid oeddynt yn gallu bod yn bresennol oherwydd eu llwythi gwaith.

2. DATGANIADAU BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau ar ddechrau'r cyfarfod.

Datganodd Ms Trish D'Souza fuddiant pan drafodwyd yr eitem Unrhyw Fater Arall am iddi fod yn cael ei chyflogi gan Capital Law.

3. COFNODION CYFARFOD Y CORFF LLYWODRAETH AR 1 GORFFENNAF 2021

Cadarnhawyd bod y cofnodion o gyfarfod y Corff Llywodraeth ar 1 Gorffennaf 2021 yn gywir.

4. MATERION SY'N CODI

4.1 Cofnod Gweithredoedd

Roedd pum gweithred ar y cofnod gweithredoedd – un werdd, tair felen ac un las. Trafodwyd y weithred las fel rhan o eitem 9 yr agenda, sef Diweddariad am Ddatblygiad y Campysau.

4.2 Gweithredoedd a gwblhawyd yn 2020/21

Nododd y Corff Llywodraethu y gweithredoedd hyn, a nodwyd bod hyn yn dangos y gwaith dilynol yr ymgymerwyd ag ef o ganlyniad i'r cyfarfodydd.

5. ADRODDIAD Y PENNAETH (YN CYNNWYS DIWEDDARIAD YNGHYLCH COVID-19)

Rhoddodd y Pennaeth y diweddariad canlynol:

- Mae yna optimistiaeth dawel ynghylch COVID gyda nifer isel o achosion positif.
- Mae'r nifer o ddysgwyr addysg bellach llawn amser a gofrestrwyd yn is na'r targed, ond mae hyn yn gyson â gweddill y sector sydd wedi gweld gostyngiad yn y nifer o ddysgwyr galwedigaethol yn 2021/22.
- Mae'r Coleg yn cymryd lles yn y gweithle o ddifrif. Mae hwylusydd annibynnol, Mrs Sharron Lusher, yn cynnal grwpiau ffocws gyda staff i drafod unrhyw broblemau. Ymateb yw hwn i ganfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg gan CGA.
- [Golygu]
- Rhagwelir y bydd arolwg gan Estyn yn digwydd yn ystod flwyddyn galendr 2022, a byddai hwn yn arolwg peilot o dan y drefn newydd.
- Rhoddwyd Ms Viv Buckley (Dirprwy Bennaeth) a Mrs Rachel Edmonds-Naish (Pennaeth y Cwricwlwm STEM) ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Womanspire Chwarae Teg.
- Rhoddwyd Gwobr Hyfforddiant y Dywysoges Frenhinol i'r Coleg am ein rhaglen Arweinyddiaeth Bobl-ganolog, wedi'i harwain gan Mrs Sam Morgan (Cyfarwyddwr Pobl).
- Roedd yr ysgol haf yn fenter enfawr, ac roedd yn llwyddiannus iawn.

Gofynnodd aelod a yw Estyn wedi newid eu ffocws o ganlyniad i'r pandemig. Esboniodd y Pennaeth fod Estyn yn y gorffennol wedi canolbwyntio ar ddata cyhoeddedig ar gyfer colegau addysg bellach, tra byddant nawr yn dod i gasgliadau a dyfarniadau ar sail yr hyn a welir yn ystod yr arolwg gan nad yw'r data ar gael fel yr oedd yn y gorffennol.

Gofynnwyd a fyddai Llywodraeth Cymru yn fodlon cael trafodaeth ynghylch ymrestriadau, a dywedodd y Pennaeth fod y Coleg yn cynllunio ar gyfer derbyniad ym mis Ionawr gan fod ysgolion yn sylweddoli nad yw rhai dysgwyr Blwyddyn 12 yn ymdopi â gofynion Safon Uwch.

Trafodwyd y mater o'r targed cyflenwi a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gyllid. Pwysleisiwyd bod y sector yn lobïo Llywodraeth Cymru i beidio â lleihau'r cyllid gan fod y sylfaen costau'n aros yn gyson; colled 1 neu 2 o ddysgwyr mewn dosbarth yw'r hyn sy'n arwain at dan-gyflenwi.

Nododd aelod arall ei fod yn falch bod y Coleg yn ymateb i ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg gan CGA, a gofynnodd am barodrwydd staff a dysgwyr i fod yn bresennol ar y safle. Dywedodd y Pennaeth fod y rhan fwyaf o staff a dysgwyr wrth eu bodd o fod nôl, ond mae nifer bach sydd o hyd yn nerfus am fod yn bresennol yn y cnawd. Mae'r Coleg yn cefnogi'r bobl hyn ac nid oes unrhyw broblemau sylweddol. Mae'r Academi STEAM wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar staff ac ar ddysgwyr.

[Golygu]

Nododd y Corff Llywodraethu y diweddariad.

6.10-6.15yh – cafwyd egwyl

6. MATERION LLYWODRAETHU

Eitemau yr argymhellwyd eu cymeradwyo

- Aelodaeth y pwyllgorau ar gyfer 2021/22 – esboniodd y Clerc y bydd strwythur y pwyllgorau'n cael eu pennu ar ôl i'r Cadeirydd newydd gael ei benodi.
- Cydbwyllgor Coleg Chweched Dosbarth Penybont – cymeradwyodd yr aelodau ddiddymiad y pwyllgor hwn am fod y bartneriaeth wedi dod i ben.
- Cymeradwyodd y Corff Llywodraethu Gylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Tâl. Esboniodd y Clerc y bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu.
- Cymeradwyodd y Corff Llywodraethu'r broses ar gyfer dod ag aelodaeth i ben am beidio â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ac i'r broses hon gael ei chynnwys yn y Cod Ymddygiad o 2022/23 ymlaen.
- Y broses o benodi Cadeirydd newydd – esboniodd y Clerc y bydd hi'n rhannu proses penodi arfaethedig drwy e-bost i'r aelodau ei chymeradwyo. Os cymeradwyir hon, bydd y broses enwebu yn rhedeg cyn cyfarfod y Corff Llywodraethu ym mis Rhagfyr fel y gellir penodi Cadeirydd yn y cyfarfod hwnnw.
- Adolygodd y Pwyllgor Cynllunio Adnoddau Adroddiad 2021 y Coleg ar Gydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant (ar sail data ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20), ac argymhellwyd cymeradwyo hwn yn amodol ar ychydig o fân ddiwygiadau. Dywedodd y Clerc y bydd hi'n rhannu'r ddolen i'r adroddiad hwn, a gofynnodd i'r aelodau ei gymeradwyo'n electronig. Cytunodd y Corff Llywodraethu i barhau yn y modd hwn.

Eitemau i'w nodi

- Adroddiad Gweithgarwch y Corff Llywodraethu ac Adroddiad y Clerc ar gyfer 2020/21 – esboniodd y Clerc bod gwaith pellach i'w wneud ar yr adroddiad hwn, ac y bydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu ym mis Rhagfyr.
- Polisïau a gymeradwywyd ar lefel y pwyllgorau – adroddodd y Clerc nad oedd unrhyw bolisïau wedi cael eu cymeradwyo ar lefel y pwyllgorau.
- Digwyddiadau y mae angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt – roedd y Clerc wedi cynnwys yn ei hadroddiad manylion am y digwyddiadau y mae angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt, fel y diffiniwyd yng Nghod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach. Hysbysodd y Clerc yr aelodau y bydd hi'n cysylltu â Llywodraeth Cymru i roi gwybod am newid y Cadeirydd ar ôl i Mr Paul Croke ymddeol.
- Suzanne Packer, yr Athro Uzo Iwobi OBE a'r Athro Helen Langton fydd yn derbyn Cymrodoriaethau Anrhydeddus gan y Coleg yn y seremoni raddio addysg uwch ar 16 Hydref.

Nododd yr aelodau y wybodaeth.

7. CYTUNDEB PARTNERIAETH STRATEGOL AR GYFER YSGOLION YR 21AIN GANRIF

Atgoffodd yr Is-bennaeth y Corff Llywodraethu eu bod wedi cytuno arwyddo'r cytundeb partneriaeth strategol hwn ar 15 Hydref 2020, a rhoddodd wybod i'r aelodau bod angen arwyddo Gweithred Ymlyniad nawr.

Gofynnodd aelod a oedd y Coleg yn ystyried gwneud unrhyw waith o dan y cytundeb hwn ar hyn o bryd, ac esboniodd yr Is-bennaeth, drwy arwyddo'r cytundeb partneriaeth strategol, bydd opsiynau gyda'r Coleg ond nid oes unrhyw rwymedigaethau ganddo. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cytundeb partneriaeth strategol yma ar hyn o bryd.

Cymeradwyodd y Corff Llywodraethu arwyddo'r Weithred Ymlyniad a oedd wedi'i chynnwys â'r papurau, a dirprwywyd awdurdod i Mr Simon Pirotte, yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth a Phrif Weithredwr, i arwyddo'r Weithred. Enwebwyd Mr Andrew Gibbs, yn rhinwedd ei swydd fel Is-bennaeth (Adnoddau), yn Gynrychiolydd y Cyfranogwr sy'n Ymuno.

Yn ychwanegol at y drafodaeth, rhoddodd Cllr Dr C Smith wybod i'r Corff Llywodraethu fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu prynu safle orsaf heddlu ym mis Mawrth 2022, a bydd yr adeilad yn cael ei ddymchwel dros yr haf.

8. DIWEDDARIAD AM GYFRIFON DRAFFT 2020/21, YN CYNNWYS DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

[Golygu]

Nododd y Corff Llywodraethu y diweddariad.

9. DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIAD Y CAMPYSAU

<u>Academi STEAM a'r Canolfan Astudiaethau'r Tir</u>

Gofynnodd yr Is-gadeirydd fod y ffaith bod prosiect yr Academi STEAM wedi cael ei gwblhau'n brydlon wrth ymgorffori'r Canolfan Astudiaethau'r Tir yn cael ei gydnabod. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd anfon neges o ddiolch at bawb a oedd yn rhan o'r prosiect, gan gynnwys y datblygwyr. **GWEITHRED – PC**

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Adnoddau ei bod yn brin iawn bod prosiectau o'r maint ac o'r natur yma'n cael eu cwblhau'n brydlon ac o fewn gyllideb, a bod hyn yn gyflawniad go arbennig.

Campws yng Nghanol y Dref

Esboniodd yr Is-bennaeth, ar fore'r 21ain o Hydref, bydd yr Academi STEAM yn cael ei agor yn swyddogol gan yr Aelod o'r Senedd Mr Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ac yn y prynhawn y diwrnod hwnnw bydd y Coleg yn cynnal cyfweliadau tendro gyda phenseiri ar gyfer y campws yng nghanol y dref. Nododd y Corff Llywodraethu y bydd Mrs Satwant Pryce, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Adnoddau, yn bresennol yn y cyfweliadau hyn fel y cytunwyd yn flaenorol.

Cyflwynodd yr Is-bennaeth yr amserlen ar gyfer adeiladu'r adeilad, a oedd yn dangos mai Ebrill/Mai 2025 fydd y dyddiad trosglwyddo cynharaf posibl.

Atgoffwyd yr aelodau mai'r risg mwyaf i'r prosiect yw prynu'r safle, ac nid oes safle arall ar gael. Mae Cyngor Pen-y-bont yn prynu'r safle gan eu bod nhw'n gallu cael mynediad at gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd aelod pam y bu oediad o chwe mis yn barod i'r caffaeliad cynlluniedig, gan fod oediadau fel arfer yn arwydd efallai na fydd y prosiect yn mynd yn ei flaen. Awgrymwyd y dylid gwahodd Ms Janine Nightingale, Cyfarwyddwr Corfforaethol gyda Chyngor Pen-y-bont, i un o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu i roi diweddariad. **GWEITHRED – SP/AG**.

Atgoffodd yr Is-bennaeth yr aelodau mai dim ond fesul tipyn y bydd y [golygu] a neilltuwyd ar gyfer y cyfnod cynllunio yn cael ei wario wrth i'r prosiect fynd rhagddo, felly nid yw'r swm cyfan dan fygythiad os nad yw'r prosiect yn mynd yn ei flaen.

6.50yh – gadawodd Mr Hayden Llewellyn y cyfarfod

Cytunodd y Corff Llywodraethu i ddirprwyo awdurdod i Mr Simon Pirotte, yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth a Phrif Weithredwr, i benodi tîm amlddisgyblaethol ar 29 Hydref 2021 yn unol â'r amserlen a gyflwynwyd.

Cafwyd trafodaethau pellach am strategaeth cyfathrebu a budd cymunedol. Ychwanegodd yr Is-bennaeth ei fod yn gobeithio y byddai syniad cysyniadol ar ôl y cyfweliadau yr wythnos ganlynol. Gofynnwyd am farnau'r myfyrwyr-lywodraethwyr a chredodd y ddau ohonynt fod campws yng nghanol y dref yn syniad gwych, yn enwedig gyda'r cysylltiadau cludiant. Dywedodd un o'r myfyrwyr-lywodraethwyr fod agoriad yr Academi STEAM wedi cyffroi'r dysgwyr yn fawr iawn.

Tir ym Mhencoed

Ni fu unrhyw ddatblygiadau i'w hadrodd ynghylch hyn, heblaw am fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cysylltu â'r Coleg i drafod y posibilrwydd o gynnwys darn o'r tir yma mewn cynlluniau ar gyfer priffordd newydd. Mae'r Coleg yn cael cyngor ynghylch hyn, gan y gallai beryglu cynnwys y tir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Cytunwyd i lunio adroddiad cau'r prosiect ar gyfer yr Academi STEAM a'r Canolfan Astudiaethau'r Tir fel bod cof corfforaethol o hyn. **GWEITHRED – AG**
Trafodwyd a chytunwyd ar hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Adnoddau yr wythnos gynt.

Nododd y Corff Llywodraethu y diweddariadau.

10. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL CORFFORAETHOL

Roedd dau KPI coch:

- KPI 1 – cyflawni o leiaf 90% o ran cwblhad llwyddiannus ar gyfer pob llwybr dysgu – mae hyn ar sail canlyniadau 2019/20 nes bod deilliannau 2020/21 yn cael eu cadarnhau.
- KPI 5 – Cyflawni trosiant o 2% fel gwarged gweithredol o leiaf – gosodwyd cyllideb ddiffyg o [golygu] ar gyfer 2021/22. Adroddodd yr Is-bennaeth fod gobaith y bydd hyn yn cael ei wella.

Trafododd y Corff Llywodraethu a ddylid gosod targedau ar gyfer cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant, a chytunwyd bod y rhain yn gallu bod yn broblematig. Yn lle hynny, dylid mapio cynnydd. Cytunodd y Corff Llywodraethu i drafod hyn ymhellach ar ddiwrnod cwrdd i ffwrdd fel y cytunwyd ar ddechrau'r cyfarfod.

Nododd y Corff Llywodraethu'r diweddariad.

11. COFNODION Y PWYLLGORAU:

11.1 PWYLLGOR CYNLLUNIO ADNODDAU – 10 MEHEFIN 2021 (WEDI'U CADARNHAU)
DERBYNIODD yr aelod y cofnodion.

11.2 PWYLLGOR CHWILIO A LLYWODRAETHU – 30 MEDI 2021
Nid oedd y cofnodion yma ar gael pan gyhoeddwyd y papurau, felly byddant yn cael eu cynnwys ar agenda ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr 2021.

12. UNRHYW FATER ARALL

<u>Yr adeilad y mae'r busnes The People Business Wales Ltd (PBW) yn berchen arno</u>
Esboniodd yr Is-bennaeth yr hoffai'r Coleg drosglwyddo'r adeilad a ddelir ar brydles hirdymor gan PBW i'r Coleg fel y gellir dirwyn y cwmni hwnnw i ben.

Datganodd Ms Trish D'Souza fuddiant gan ei bod yn gweithio i Capital Law, sydd wedi bod yn cynghori'r Coleg ynghylch hyn, er nad oedd hi'n rhan o roi'r cyngor yma.

Cymeradwyodd y Corff Llywodraethu drosglwyddo prydles hirdymor yr adeilad i'r Coleg.

PENDERFYNIAD: Yr ydym ni, sef Corff Llywodraethu Coleg Penybont, yn **PENDERFYNU** yn unol ag erthyglau llywodraethu Coleg Penybont i awdurdodi Paul Croke i gwblhau trosglwyddo 12 a 14 Holton Road, Y Barri, CF63 4HD, o (1) The People Business Wales Ltd i (2) Coleg Penybont gyda'r bwriad y bydd gan unrhyw ddogfen a gwblheir â'r awdurdod hyn yr un effaith â phe bai sêl Coleg Penybont wedi cael ei rhoi arni.

<u>Aelodau sy'n gadael</u>
Diolchodd yr Is-bennaeth, ar ran ei hun a'r Dirprwy Bennaeth, i'r Cadeirydd am ei arweinyddiaeth ac i Mr D John Finch a Mrs Kathy Lewis am eu cefnogaeth ar y Corff Llywodraeth ac ar y Pwyllgor Archwilio.

ÔL-DRAFODAETH

- Gweithiodd y cyfarfod hybrid yn dda.
- Nid oedd yr aelodau ar y sgrin yn gallu gweld sleidiau'r Pennaeth pan oedd yn rhoi'r cyflwyniad. Bydd y Clerc yn rhannu'r rhain â'r aelodau.
- Roedd hwn yn gyfarfod "ffantastig" a gafodd ei gynnal mewn modd effeithlon.
- Diolchodd Ms Emma Adamson y Corff Llywodraethu am y croeso cynnes.

Diolchodd y Cadeirydd bawb am fod yn bresennol, a daeth y cyfarfod i ben am 7.05yh.